YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod ysgolhafanymor.cymru @hafanymortenby

08.11.19

Annwyl rieni a gofalwyr

Sêr yr Wythnos
Llongyfarchiadau i Millie R, Polly, Tobias, Darcy, Ffion, Daisy a Phoebe R am fod yn sêr yr wythnos hon – 08.11.19!

Gwerthu pabis coch
Mi fydd disgyblion yr ysgol yn gwerthu pabis coch yn ystod yr wythnos gyntaf nôl 4 – 8fed Tachwedd.

Plant Mewn Angen
Mi fydd disgyblion yr ysgol yn nwyddau Plant Mewn Anegn tu fas yr ysgol o'r 4ydd Tachwedd ymlaen.

Plant Mewn Angen – 15.11.19
Yn dilyn cyfarfod Cyngor Ysgol mae'r pwyllgor wedi penderfynu gofyn i bawb i wisgo lliwiau lliwgar i'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 15fed er mwyn dathlu diwrnod Plant Mewn Angen. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen.
Hoffai'r disgyblion cael arwerthiant cacennau hefyd, felly gofynnwn yn garedig i chi ddod â chacennau mewn erbyn bore dydd Gwener yn barod am yr arwerthiant. Ni fydd angen i blant ddod ag arian i brynu cacennau yn ystod y dydd **heb law am y plant sy'n aros am glwb hwyl** gan fod yr arwerthiant ar ddiwedd y dydd.

Sticeri Aldi a Llaeth y Llan
Mae'r ysgol yn casglu sticeri Tîm Prydain Fawr. Unwaith y bydd y siart wal wedi'i chwblhau gyda 300 o sticeri, mae'r ysgol yn anfon y poster at Aldi ac yn derbyn cit chwaraeon unigryw ac yn cael cyfle i ennill £ 20,000 i'r ysgol. Cefnogwch ni os gwelwch yn dda. https://www.aldi.co.uk/kitforschools
Fel ysgol, rydym hefyd yn casglu potiau a thopiau iogwrt gwag Llaeth y Llan. Os oes gennych rai, anfonwch nhw i'r ysgol gyda'ch plentyn / plant. Byddwn yn eu casglu tan o leiaf mis Mehefin, y flwyddyn nesaf ac mae hyd at £1000 i'r ysgol os ydym yn cyrraedd y targed! ***Lledwch y gair os gwelwch yn dda!***

Derbyniadau i Ysgol Hafan y Môr
Mae hwn i atgoffa rhieni gyda brodyr/ chwiorydd iau, nad ydynt wedi cofrestru eto ar gyfer lle ysgol neu, os ydych chi'n gwybod am unrhyw rieni sy'n dymuno i'w plentyn / plant fynychu'r ysgol ac nad ydynt wedi cofrestru eto. Rhaid gwneud ceisiadau am leoedd ym mhob ysgol a gynhelir yn Sir Benfro ar-lein trwy wefan y Cyngor - https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-admissions.

Mae'r amserlen ar gyfer derbyniadau yn seiliedig ar ddyddiad geni eich plentyn fel a ganlyn:

Child's d.o.b.	Starts Nursery part time	Closing date for on-line applications (Nursery)	Notification of Decision	Reception start date	Closing date for on-line applications (Reception)	Notification of Decision **
01.09.2015 – 31.12.2015	January 2019			September 2020	31.01.2020	16.04.2020
01.01.2016 – 31.03.2016	April 2019					
01.04.2016 – 31.08.2016	September 2019					

01.09.2016 – 31.12.2016	January 2020	Processed in April 2019 – applications received now are classed as late		September 2021	31.01.2021	16.04.2021
01.01.2017 – 31.03.2017	April 2020					
01.04.2017 – 31.08.2017	September 2020					
01.09.2017 – 31.12.2017	January 2021	30.04.2020	By 31st July 2020	September 2022	31.01.2022	18.04.2022
01.01.2018 – 31.03.2018	April 2021					
01.04.2018 – 31.08.2018	September 2021					
01.09.2018 – 31.12.2018	January 2022	30.04.2021	By 31st July 2021	September 2023	31.01.2023	18.04.2023
01.01.2019 – 31.03.2019	April 2022					
01.04.2019 – 31.08.2019	September 2022					

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru disgyblion meithrin ar gyfer derbyn yw 31 Ionawr 2020. **Nid yw'ch plentyn wedi'i gofrestru'n awtomatig er ei fod eisoes yn yr ysgol.**

Derbyniadau i Ysgolion Uwchradd Medi 2020
Cyn gwneud cais, darllenwch y llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2020-21 am wybodaeth am y gweithdrefnau derbyn - https://www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion/derbyniadau-i-ysgolion-gwybodaeth-i-rieni

Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer ysgolion uwchradd Sir Benfro gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein drwy wefan Cyngor Sir Penfro - https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu .

Gallwch ddarganfod eich ysgol ddalgylch trwy deipio eich côd post yn y blwch "Gwasanaethau yn eich ardal" trwy ddilyn y ddolen hon https://www.sir-benfro.gov.uk/preswylydd a chlicio chwilio cyfeiriad. Yna, byddwch yn gallu dewis eich cyfeiriad a chlicio ar y botwm ysgolion i gael gwybodaeth.

Gallwch fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol fodd bynnag, byddwn yn eich cynghori i ddarllen y wybodaeth o ran cymhwysedd cludiant i'r ysgol - https://www.sir-benfro.gov.uk/trafnidiaeth-ysgol

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o ysgolion uwchradd Sir Benfro, ewch i'w gwefannau. Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer ysgolion uwchradd mewn sir arall yn uniongyrchol i'r sir honno. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i wneud cais i'r siroedd hyn ar eu gwefannau.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich cais erbyn y dyddiad cau, sef 20 Rhagfyr 2019. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael eu hystyried yn hwyr a gallai hyn effeithio ar p'un a ydych yn cael lle yn yr ysgol o'ch dewis. **Bydd rhieni'n cael gwybod am ddyraniad y lleoedd ar Ddydd Llun 2 Fawrth 2020.**

Ioga Babi
Mae sesiynau Babi Ioga yn dechrau heddiw, 8.11.19 rhwng 1.15 – 2.15yp. Mae'r sesiynau dros 10 wythnos ac yn addas i fabanod dros 10wythnos oed. Nid oes gost am y sesiynau.
https://www.facebook.com/172511693164340/photos/rpp.172511693164340/827744460974390/?type=3&theater

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 11.11.19			Week commencing: 11.11.19	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
11.11.19 **Dydd Llun**	**Gwersi Ymarfer corff i Bl.2, 3, 4, 5 a 6** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		11.11.19 **Monday**	**PE lessons for all pupils in yrs.2, 3, 4, 5 & 6** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
11.11.19 **Dydd Llun**	**Noson Agored Ysgol y Preseli – 5 -7.30yh** http://preseli.web8.devwebsite.co.uk/calendar/?day=11&month=11&year=2019&pid=3&calid=1#11		11.11.19 **Monday**	**Open evening at Ysgol y Preseli – 5 – 7.30pm** http://preseli.web8.devwebsite.co.uk/calendar/?day=11&month=11&year=2019&pid=3&calid=1#11
13.11.19 **Dydd Mercher**	**NEWID AM YR WYTHNOS HON YN UNIG** **Gwersi Ymarfer corff i Derbyn a Meithrin** **Rhaid** i **bob** plentyn (dosbarth Derbyn) ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		13.11.19 **Tuesday**	**PLEASE NOTE THE CHANGE FOR THIS WEEK ONLY** **PE lessons for all pupils in Reception and Nursery** **All** pupils in Reception **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
13.11.19 **Dydd Mercher**	**Mercher Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr**		13.11.19 **Wednesday**	**Muddy Wednesday** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class**
13.11.19 **Dydd Mercher**	**Clybiau ar ôl ysgol (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Bl. 2 Clwb Celf (Art club) – Bl. 3 *(+ gweddill Bl.4 nid ydynt yn coginio)* TGCh (ICT) - Bl.5 + 6 Coginio (Cooking) - Bl.4		13.11.19 **Wednesday**	**Clybiau ar ôl ysgol (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Bl. 2 Clwb Celf (Art club) – Bl. 3 *(+ gweddill Bl.4 nid ydynt yn coginio)* TGCh (ICT) - Bl.5 + 6 Coginio (Cooking) - Bl.4
15.11.19 **Dydd Gwener / Friday**	**PLANT MEWN ANGEN – CHILDREN IN NEED** **PAWB** i wisgo lliwiau lliwgar i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen. Gofynnwn yn garedig i chi ddod â **chacennau mewn erbyn bore dydd Gwener** yn barod am yr arwerthiant. Ni fydd angen i blant ddod ag arian i brynu cacennau yn ystod y dydd **heb law am y plant sy'n aros am glwb hwyl** gan fod yr arwerthiant ar ddiwedd y dydd. **EVERYONE** to wear colourful clothes to school to celebrate Children in Need day. We kindly ask for a donation of £ 1 or more towards the charity. The pupils would also like to have a cake sale, we kindly ask you to bring in cakes by Friday morning ready for the sale. Children **will not need** to bring in money to buy cakes during the day except for the children who stay for Clwb hwyl (After school club) as the **cake sale will be held at the end of the school day**.			
15.11.19 **Dydd Gwener**	**Gwersi Ymarfer corff i fl. 1** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		15.11.19 **Friday**	**PE lessons for Year 1** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
15.11.19 **Dydd Gwener**	**Gwener Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Pysgod Chwim (Meithrin)**		15.11.19 **Friday**	**Muddy Friday** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Pysgod Chwim class (Nursery)**
15.11.19 **Dydd Gwener**	**Gwersi nofio i ddosbarth Mr Hughes (Harbwr).** Rhaid cofio gwisg nofio, tywel, het a gogls.		15.11.19 **Friday**	**Swimming lessons for Mr Hughes' class (Harbwr).** Remember to bring your swimming costume, towel, swimming hat and goggles.

Gwybodaeth – Information

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 06.01.2020

HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 20.01.2020

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:- The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-
www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil
www.twitter.com/Pembrokeshire

Dyddiadau o flaen llaw			Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
Hanner tymor – 28.10.19 – 01.11.19 – Half term				
14.11.19	Noson Agored Ysgol Caer Elen		14.11.19	Ysgol Caer Elen open evening
15.11.19	Diwrnod Plant Mewn Angen		15.11.19	Children in Need Day
02.12.19	Sioe Nadolig Meithrin a Derbyn (1.30yp) Sioe Nadolig Bl. 1 a 2 (6yh)		02.12.19	Nursery & Reception Christmas show (1.30pm) Yrs. 1 & 2 Christmas show (6pm)
03.12.19	Sioe Nadolig Meithrin a Derbyn (10yb) Sioe Nadolig Bl. 1 a 2 (1.30yp) Sioe Nadolig Bl. 3, 4, 5 a 6 (6yh)		03.12.19	Nursery & Reception Christmas show (10am) Yrs. 1 & 2 Christmas show (1.30pm) Yrs. 3, 4, 5 & 6 Christmas show (6pm)
04.12.19	Sioe Nadolig Bl. 3, 4, 5 a 6 (1.30yp) Sioe Nadolig Bl. 3, 4, 5 a 6 (6yh)		04.12.19	Yrs. 3, 4, 5 & 6 Christmas show (1.30pm) Yrs. 3, 4, 5 & 6 Christmas show (6pm)
11.12.19	Cinio Nadolig		11.12.19	Christmas lunch
12.12.19	Bingo Nadolig		12.12.19	Christmas Bingo
13.12.19	Gwasanaeth Christingle yn Eglwys Santes Fair am 1.30yp		13.12.19	Christingle service at 1.30pm in St Mary's Church
17.12.19	Cyngerdd Cerddorfa am 2yp – croeso cynnes i bawb!		17.12.19	Orchestra Christmas Concert @ 2pm. A warm welcome is extended to all!
18.12.19	Parti Nadolig		18.12.19	Christmas party
20.12.19	Diwrnod Siwmper Nadolig		20.12.19	Christmas Jumper Day
20.12.19	**Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig**		**20.12.19**	**Close for Christmas holidays**
06.01.20	**HMS – ysgol ar gau i blant**		**06.01.20**	**INSET – school closed to children**
07.01.20	**Dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwyliau'r Nadolig**		**07.01.20**	**Return to school following the Christmas break.**
20.01.20	**HMS – ysgol ar gau i blant**		**20.01.20**	**INSET – school closed to children**

Dyddiad newydd / New Date